

Dw i eisiau dy ddilyn di, Arglwydd; dysga dy ffyrdd i mi (Salmau 25 [24]:4).

Yn y salm hon fe'n cyflwynir i ddyn sy'n teimlo dan fygythiad ac mewn perygl. Mae angen iddo ddod o hyd i'r llwybr cywir i'w arwain at ddiogelwch. At bwy y gall apelio am gymorth?

Ag yntau'n ymwybodol o'i wendid ei hun, yn y pen draw mae'n codi ei lygaid ac yn galw ar yr Arglwydd, Duw Israel, nad yw erioed wedi gadael ei bobl, ond sydd wedi eu tywys ar y daith hir drwy'r anialwch i Wlad yr Addewid.

Mae'r profiad o 'gerdded gyda Duw' yn llenwi'r teithiwr gydag ymdeimlad o obaith unwaith eto. Mae'n amser arbennig o agosatrwydd newydd at Dduw, gan ymddiried mewn ymollwng i'w gariad ffyddlon, er gwaethaf ei anffyddlondeb ei hun.

Yn iaith y Beibl, mae cerdded gyda Duw hefyd yn wers bywyd: mae'n gyfnod o ddysgu cydnabod ei gynllun o iachawdwriaeth.

Dw i eisiau dy ddilyn di, Arglwydd; dysga dy ffyrdd i mi

Yn aml, byddwn yn cerdded ar hyd ffyrdd yr hyn rydym ni'n ei gredu yw ein hunangynhaliaeth ond yna cawn ein hunain ar goll, yn ddryslyd ac yn ymwybodol o'n cyfyngiadau a'n diffygion. Hoffem ddod o hyd i gwmpawd mewn bywyd a'r llwybr cywir i gyrraedd ein nod.

Mae'r Salm hon yn ein helpu'n fawr; mae'n ein hannog i symud at gyfarfyddiad newydd neu ail gyfarfyddiad personol â Duw ac ymddiried yn ei gyfeillgarwch.

Mae'n rhoi'r dewrder i ni gofleidio ei ddysgeidiaeth, sy'n ein gwahodd drwy'r amser i osgoi aros yn gaeedig ynom ni ein hunain, gan ei ddilyn ar hyd ffordd cariad, y mae'n teithio ar ei hyd yn gyntaf wrth ddod i gwrdd â ni.

Gall gweddi fod yn gwmni i ni drwy gydol y dydd gan olygu bod pob moment, boed yn llawen neu'n drist, yn gam ar ein taith.

Dw i eisiau dy ddilyn di, Arglwydd; dysga dy ffyrdd i mi

Yn y Swistir, mae, Hedy, sy'n briod a chanddi bedwar o blant, wedi bod yn ceisio byw'r Gair ers tro. Mae hi bellach yn ddifrifol wael ac yn gwybod ei bod ar fin cyrraedd nod ei thaith ar y ddaear.

Dywed ei ffrind annwyl Kati wrthym, 'Yn ystod pob ymweliad, hyd yn oed gyda'r staff nyrsio, mae Hedy wastad yn meddwl am bobl eraill - mae ganddi ddi-ddordeb mewn pobl eraill - er ei bod yn anodd iawn iddi hi siarad bellach. Mae'n diolch i bawb am fod yna ac yn rhannu ei phrofiad gyda nhw. Cariad yn unig yw hi, "ie" byw i ewyllys Duw! Mae'n denu llawer o bobl: ffrindiau, perthnasau a chlerigwyr. Mae ei sylw i'w holl ymwelwyr a'i chryfder, ffrwyth ffydd yng nghariad Duw, yn gwneud argraff fawr ar bawb.'

Ysgrifennodd sylfaenydd Focolare, Chiara Lubich, am fywyd fel 'taith sanctaidd'ⁱ Mae'r 'daith sanctaidd' yn symbol o'r llwybr rydym ni'n teithio arno at Dduw... Beth am wneud yr unig fywyd sydd gennym ni yn daith, yn daith sanctaidd, gan fod yr un sy'n ein disgwyl yn sanctaidd... Gall hyd yn oed y rheini sydd heb gredoau crefyddol penodol wneud campwaith o'u bywydau, a gydag unplygrwydd mawr ymgymryd â thaith o ymrwymiad moesol diffuant... Os yw bywyd yn 'daith sanctaidd' ar hyd llwybrau ewyllys Duw, dylem wneud cynnydd bob dydd... Ond pan fyddwn yn stopio?... A ddylem ni adael y fenter am fod ein camgymeriadau yn ein digalonni? Na, yn y munudau hyn y geiriau pwysig yw 'dechrau eto' ... drwy osod ein hymddiriedaeth i gyd yng ngras Duw yn hytrach nag yn ein galluoedd... Ac mae'n bwysig ein bod yn cyd-gerdded, yn unedig mewn cariad, ac yn helpu ein gilydd. Bydd y Bod Sanctaidd yn ein canol a bydd yn 'Ffordd' i ni. Bydd yn gwneud i ni ddeall ewyllys Duw'n fwy clir ac yn rhoi'r awydd a'r gallu i ni ei gyflawni. Bydd popeth yn rhwyddach os gallwn uno a byddwn yn profi'r llawenydd a addawyd i'r rheini sy'n ymgymryd â'r 'daith sanctaidd'.ⁱⁱ

Letizia Magri

ⁱ Cf. Salm. 84 (83):5 'Y fath fendith sydd i'r rhai wyt ti'n eu cadw nhw'n saff, wrth iddyn nhw deithio'n frwd ar bererindod i dy deml (CEI 1974)

ⁱⁱ C Lubich, Gair Bywyd, Rhagfyr 2006